804



# MORWYNION GLAN
# MEIRIONYDD.

Tôn—"*Pen Rhaw.*"

Er a welais dan y ser
  O lawnder, gloewder gwledydd.
O gwrw da, a gwŷr i'w drin,
  A gwin ar fin afonydd,
Goreu bîr a goreu bwyd
  A ranwyd i Feirionydd.

Eidion du a dyn ei did,
  Ond odid i ddyn dedwydd,
I dori ei gwys ar dir ac ar,
  A braenar ar y bronydd;
Goreu tyn, fe'i gwyr y tad,
  Morwynion gwlad Meirionydd.

Da ydyw'r gwaith, rhaid dweyd y gwir,
  Ar fryniau Sir Feirionydd,
Golwg oer o'r gwaela' gawn,
  Mae hi eto'n llawn llawenydd;

Pwy ddysgwyliai canai'r gog
  Mewn mawnog yn y mynydd.

Pwy sydd lân o bryd a gwedd,
  Ond rhyfedd mewn pentrefydd?
Pwy sy'n mhob hyswiaeth dda,
  Yn gwlwm gyda'u gilydd?
Pwy fu'n ymyl dwyn fy ngho'?
  Morwynion bro Meirionydd.

Glân yw'r gleisiad yn y llyn,
  Nid ydyw hyn ddim newydd;
Glân yw'r fronfraith yn ei thŷ,
  Dan daenu ei hadenydd;
Glanach yw, os dywedai'r gwir,
  Morwynion tir Meirionydd.

Anwyl yw gan adar byd
  Eu rhyddid hyd y coedydd;
Anwyl yw gan faban laeth
  Ei famaeth odiaeth ddedwydd;
O! ni ddywedwn yn fy myw
  Mor anwyl yw Meirionydd.

Mwyn yw telyn o fewn tŷ,
  Lle byddo teulu dedwydd;
Pawb a'i bennill yn ei gwrs,
  Heb son am bwrs y cybydd;
Mwyn y cân oddeutu'r tân,
  Morwynion glân Meirionydd.

Er fod fy nghorff mewn hufen byd,
  Yn rhodio hyd y gwledydd,
Yn cael pleser môr a thir,
  Ni chaf yn wir mo'r llonydd,
Myned adre' i mi sydd raid,
  Mae'r enaid yn Meirionydd.

LEWIS MORRIS, Ysw

93

X 2052 38415

# YR EOS A'R GLAN HEDYDD

---

## CANIAD ANNERCH
AT
# FERCH IEUANC.

---

TÔN—"*Hen Felinydd Meirion.*"

---

Yr Eos a'r glân Hedydd,
Ac adar man y mynydd,
A ewch chwi'n genad at liw'r ' af,
Sy'n glaf o glefyd newydd.

'Does genyf ddim anrhegion,
Na *jewels* drud i'w danfon
Yn awr i annerch teg ei phryd,
Ond pâr o fenyg gwynion.

Yr adar mân a aethant,
I'w siwrnai bell hedasant,
Ac ar gyfer gwely Gwen,
Hwy ar y pren a ganent.

Dywedai Gwen, lliw'r ewyn,
"Och fi, pa beth yw'r 'deryn
Sydd yma'n tiwnio'n awr mor braf,
A minau'n glaf ar derfyn?"

"Cenhadon ym, gwnewch gofio,
Oddiwrth y mwya' a'ch caro,
Gael iddo wybod ffordd yr y'ch,
Ai mendio'n wych neu beidio?"

"O dywedwch wrtho'n dawel,
Mai byr fydd hyd fy hoedel,
Cyn diwedd hyn o haf, yn brudd,
Ai'n gymysg bridd a grafel."

Yr adar ddaeth yn ebrwydd,
Gan ddwyn i'r mab y newydd,
Y byddai'i gariad, hyn sydd wir,
Mewn bedd cyn hir o'i herwydd.

"Wel os yw hi, mûn dawel,
Am fyn'd i bridd a grafel.
Caiff genyf gamrig punt o bris,
I roi iddi grys o ffarwel.

Mi fynaf chwareu'r veiol,
A'r delyn yn y canol,
A phob rhyw alar trwm ar glych,
Pan êl mûn wych yn farwol.

Ac yno byddaf finnau
Yn wylo yr heilltion ddagrau,
Ar ol y feinir fwyna' rioed
A roes ei throed ar lwybrau."

*Argraffwyd gan H. Humphreys, Caernarfon.*
93